# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Trechu Tlodi

### Cyflwyniad

1. Mae Trechu Tlodi yng Nghymru yn un o flaenoriaethau pennaf Llywodraeth Cymru, fel yr adlewyrchir yn ein Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi adolygedig – 'Creu Cymunedau Cryf' – y gwnaethom ei lansio ar 3 Gorffennaf 2013. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gael yn:

   http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/141210171?skip=1&lang=cy

### Cefndir

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymroddi i drechu tlodi, nid yn unig am mai dyma'r peth priodol i'w wneud, ond oherwydd ei fod yn gwneud synnwyr ariannol ac economaidd. Mae mynd i'r afael â thlodi yn golygu costau enfawr o gyllid cyhoeddus, ac mae'r lefel is o sgiliau, iechyd gwael a'r diffyg uchelgais a ddaw yn sgil amddifadedd yn ffrwyno potensial economi Cymru. Rydym wedi ymroddi sefydlu'r gefnogaeth y mae ar Gymunedau Cymru ac unigolion ei hangen i adael tlodi.

3. Mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni yn golygu fod ein hymroddiad i drechu tlodi hyd yn oed yn bwysicach drwy roi blaenoriaeth i anghenion y bobl dlotaf ac amddiffyn y rheini sydd fwyaf mewn perygl o fod yn dlawd ac o gael eu hallgau. Mae effaith toriadau ariannol wedi gorfodi i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill y sector gyhoeddus ailystyried dulliau o weithio, i wneud y defnydd gorau posibl o'r arian sydd gennym.

4. Mae'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn dod â chamau gweithredu ynghyd o bob portffolio yn Llywodraeth Cymru, i gefnogi'r tair prif amcan, sef atal tlodi, helpu pobl i gael gwaith a lliniaru effaith tlodi. Rydym hefyd yn annog gweddill gwasanaethau cyhoeddus Cymru i fabwysiadu'r dull integredig hwn, ynghyd â phartneriaid yn y trydydd sector a busnes. Sylfaen hyn yw'r ddyletswydd statudol a roddwyd i gyrff cyhoeddus i baratoi a gweithredu strategaeth tlodi plant.

5. Yr ymyraethau effeithiol fydd y rhai sy'n blaenoriaethu symud pobl, ac yn enwedig plant, allan o dlodi, trwy ddylanwadu ar ragolygon dysgu, iechyd a chyflogaeth, ond rhoddir sylw hefyd i gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r profiad o fyw mewn tlodi. Mae'r Cynllun Gweithredu, â'i gerrig milltir a thargedau clir, yn darparu fframwaith i'r ymdrechion hyn. Goruchwylir cynnydd gan Fwrdd Gweithredu, a gadeirir gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, a bydd yn cyfarfod tair gwaith bob blwyddyn.

### Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith

6. Mae cysylltiad cryf rhwng aelwydydd heb waith a thlodi difrifol a pharhaus a chyfraddau tlodi plant uwch. Mae gan Gymru gyfraddau uwch o aelwydydd heb

waith na mwyafrif rhannau eraill y DU, ac mae dros 200,000 o aelwydydd heb waith ar hyn o bryd.

7. Mae'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn cynnwys ymroddiad ar draws y Llywodraeth i gynnig 5,000 o gyfleoedd i bobl sy'n byw mewn aelwydydd heb waith i ganfod hyfforddiant neu waith cynaliadwy erbyn diwedd blwyddyn calendr 2017. I gyflawni'r targed uchelgeisiol hwn, gofynnir i holl bortffolios Llywodraeth Cymru nodi cyfleoedd hyfforddiant, profiad gwaith neu gyflogaeth. Gallai hyn gynnwys:

- rhaglenni cyflogaeth a sgiliau;
- Twf Swyddi Cymru;
- cyfleoedd gwaith yn y sector cyhoeddus; a
- chyfleoedd yn y sector preifat.

8. Bydd y prosiect Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith yn adeiladu ar fodel a ddatblygwyd rhwng Cymunedau yn Gyntaf a Chanolfan Byd Gwaith, yn cynnwys ymgynghorwyr yn y timau Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a darparu gwasanaethau trwy'r Canolfannau Plant Integredig. Yn dilyn dadansoddiad rhagarweiniol o'r data, ymarfer i fapio'r ddarpariaeth bresennol ac asesiad o allu'r Clystyrau dan sylw, penderfynwyd cynnal peilot o'r cynllun Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith mewn wyth clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ar draws Cymru.

9. Caiff yr holl glystyrau sy'n rhan o gynllun peilot Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith eu cefnogi trwy ddatblygiad pecyn o ymyraethau a staff pwrpasol ychwanegol a fydd yn rhan o Dîm Cyflawni'r Clwstwr. Bydd gan y model Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith ddull pum cam sy'n caniatáu i gyfranogwyr wneud cynnydd mor gyflym ag y gallant, a chynigir cyfleoedd hyfforddiant neu waith yn ystod bob cam lle bydd hynny'n briodol. Caiff cefnogaeth ddwys i aelwydydd sydd â rhwystrau ac anghenion mwy arwyddocaol ei ymgorffori yn y model.

10. Mae gan y sector breifat a holl rannau'r sector cyhoeddus ran hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o gefnogi Rhaglen Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith, ac felly Trechu Tlodi yng Nghymru, trwy nodi cyfleoedd hyfforddiant a gwaith i bobl sy'n cyfranogi yn y Rhaglen. Ffurfiwyd Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru yn benodol i gynorthwyo ag ymgysylltu rhwng y partneriaid cymdeithasol a Llywodraeth Cymru, ac felly bydd ganddi rôl allweddol yn hyn. Byddwn yn trafod hyn yn fanylach â hwy yn ystod y misoedd sy'n dod, ond byddem yn croesawu sylwadau neu awgrymiadau gan aelodau'r Cyngor yn fawr hefyd.

**Cymunedau yn Gyntaf**

11. Cymunedau yn Gyntaf yw prif raglen Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cychwynnodd y rhaglen yn 2001, ond ers 2012, mae wedi'i gweddnewid yn Rhaglen Trechu Tlodi sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned, yn seiliedig ar nifer lai o ardaloedd sy'n fwy na'r rhai a elwid yn Glystyrau yn flaenorol. Datblygwyd Fframwaith Canlyniadau â thair prif thema: Cymunedau Ffyniannus; Cymunedau Iachach; a Chymunedau Dysgu.

12. Mae 52 Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, ac mae gan bob un ohonynt boblogaeth o 10-15,000. Rhyngddynt, maent yn cynnwys pob un o'r deg y cant o'r ardaloedd

mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011.

13. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cefnogi Timau Cyflawni ac amrywiaeth o weithgarwch ymhob ardal Clwstwr. Erys cynnwys y gymuned a phartneriaethau traws-sector yn agweddau sylfaenol o'r rhaglen, a chaiff cyfranogiad y sector preifat ei annog yn gryf ymhob ardal. Yn y gorffennol, mae partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn aml wedi'i chael hi'n anodd cyflawni hyn, ond mae busnesau yn aml wedi cyfrannu at waith yn eu hardaloedd eu hunain. Bellach, mae mwy o hyblygrwydd na'r gorffennol i ganiatáu i bob Clwstwr ddatblygu'r strwythurau a'r dulliau a fydd yn gweithio'n fwyaf llwyddiannus yn ei ardal ei hun i ddenu cymaint ag y gellir o bobl leol a sefydliadau partner i gyfranogi yn eu gwaith.

14. Ein huchelgais bellach yw datblygu rhagor o waith partneriaeth strategol a thymor hir gyda busnesau mwy a chyflogwyr mawr. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu sy'n cael ei fabwysiadu yn y rhaglen gyfan, lle cysylltir mentrau cenedlaethol a rhanbarthol â sawl Clwstwr ar yr un pryd trwy brosiectau "Canlyniadau Cyffredin". Mae swyddogion yn gweithio gydag Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i archwilio dewisiadau, yn cynnwys cysylltiadau posibl â'r Rhaglen Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith.

**Ymgysylltu ag Ysgolion / Profiad Gwaith**

15. Fe lansiodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid newydd ar 1 Hydref. Roedd hyn yn datgan yn glir fod gan ysgolion gyfraniad hollbwysig at gryfhau gwaith gyda chyflogwyr ac adeiladu dealltwriaeth pobl ifanc o'r byd gwaith ôl-16. Rydym yn cydnabod ein bod yn gofyn llawer o'r ysgolion ar hyn o bryd, ac mae'n hanfodol eu bod yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth graidd llythrennedd, rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad. O gofio eu gallu cyfyngedig, credwn fod angen inni ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ysgolion i gefnogi eu gwaith gyda chyflogwyr. Rydym yn bwriadu gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner gan gynnwys Gyrfa Cymru i ddatblygu prosiect strategol i Feithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr a chyflawni rhaglen well Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith erbyn Mawrth 2014, â'r bwriad o ddenu cyllid ESF.

16. Yn ogystal â helpu ysgolion i gryfhau eu cysylltiadau â chyflogwyr, rydym hefyd yn credu y dylem edrych yn fanylach ar bwrpas profiad gwaith a'i ddefnydd yng Nghymru.  Mae trafodaeth ynghylch a yw'r model presennol o gynnig cyfnod profiad gwaith sefydlog i bob myfyriwr Blwyddyn 10 ac 11 yn cynnig darpariaeth wedi'i deilwra i bobl ifanc, a pha un ai a yw'n helpu i sicrhau fod y sawl sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio yn cael yr amrywiaeth ehangaf posibl o gyfleoedd ôl-16.  Fel rhan o ddatblygu ein prosiect arfaethedig ar Feithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr, rydym felly'n bwriadu adolygu gofynion profiad sy'n canolbwyntio ar waith y fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith erbyn Mawrth 2014 i argymell gwelliannau i'r defnydd o brofiad gwaith yng Nghymru.

17. Bydd Gyrfa Cymru hefyd yn parhau i gefnogi ysgolion trwy gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad annibynnol a diduedd ynghylch dysgu, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith.   Mae addysgu pobl ifanc mewn ysgolion am eu dewisiadau o ran addysg yn y dyfodol, dewisiadau gyrfa a rhoi sgiliau rheoli gyrfaoedd iddynt yn rhan o Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Cyfrifoldeb ysgolion yw cyflawni hyn.

Fel rhan o gylch gorchwyl Gyrfa Cymru yn 2013-14, mae Llywodraeth Cymru'n gofyn i'r cwmni ystyried beth yw'r ffordd orau iddo weithio gydag ysgolion i'w cefnogi i ddarparu rhaglenni Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a chyflawni Marc (Ansawdd) Gyrfa Cymru.

**Gofal Plant**

18. Ym mis Gorffennaf eleni, fe wnaethom gyhoeddi 'Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant' sy'n amlinellu ein hymroddiad i wella cyfleoedd bywyd a chanlyniadau pob plentyn yng Nghymru. Mae'r Cynllun deng mlynedd yn cyfuno amrywiaeth o raglenni a pholisïau ac mae'n disgrifio sut byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi plant a'u teuluoedd ar draws y blynyddoedd cynnar.

19. Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth gofal plant i'r economi ac mae'n cydnabod y rhan allweddol y gall y gymuned fusnes ei chwarae fel un o'r partneriaid rhanddeiliaid i gyflawni camau gweithredu allweddol y Cynllun. Mae gofal plant fforddiadwy, hyblyg a hygyrch yn galluogi rhieni i weithio neu gael hyfforddiant, ac mae'n cefnogi ein hymdrech i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghyfartaledd.

20. Wrth symud ymroddiadau amrywiol y Cynllun yn eu blaen, bwriadwn ennyn diddordeb y gymuned fusnes i hybu addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant a pholisïau sy'n ystyriol o deuluoedd. Mae'r Cynllun yn darparu cyfle amhrisiadwy i harneisio'r arbenigedd sy'n bodoli yn y gymuned fusnes i gynorthwyo â'r materion a nodwyd, yn cynnwys mynd i'r afael ag anghenion rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, yn ogystal â'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

21. Rydym hefyd yn bwriadu cefnogi a datblygu'r farchnad gofal plant, mewn partneriaeth â'r sector gofal plant ac awdurdodau lleol, i wella gallu a sicrhau cynaliadwyedd. Bydd hyn yn adeiladu ar ein buddsoddiad sydd eisoes yn sylweddol i ehangu rhaglen Dechrau'n Deg, lle rydym yn buddsoddi arian refeniw ychwanegol o £55m ac arian cyfalaf ychwanegol o £19m dros y cyfnod tair blynedd 2012-15. Erbyn Mai 2016, bydd 36,000 o blant yn elwa ar y rhaglen, sy'n cynnwys 12.5 awr yr wythnos o ofal plant o ansawdd uchel i blant 2-3 oed am ddim.

22. Mae rhai o'r blaenoriaethau penodol a amlinellir yng Nghynllun Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sy'n cynnwys gweithio'n agos â'r gymuned fusnes, yn cynnwys y bwriad i:

- redeg ymgyrch yn cychwyn yn hydref 2013 mewn dwy ardal ble mae angen am ragor o ddarpariaeth gofal plant, i **annog sefydlu busnesau gofal plant newydd** a chynnig cefnogaeth amrywiol, yn cynnwys cyngor busnes wedi'i deilwra a hyfforddiant i gyflawni cymwysterau gofal plant;
- cynnig cyngor ynghylch y cymorth amrywiol sydd ar gael trwy Fusnes Cymru, i **ddatblygu'r farchnad gofal plant**, yn cynnwys cymorth i ofalwyr plant ac ehangu busnesau gofal plant;
- Sicrhau fod **gofal plant yn rhan o brosiectau adfywio neu ddatblygu economaidd sylweddol**;

- parhau i ddatblygu prosiect peilot Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, gweithio i ddatblygu darpariaeth gofal plant a chynnig cefnogaeth i alluogi rhieni i gyfranogi mewn hyfforddiant neu ddychwelyd i weithio; ac
- ystyried **arbrofi â chydweithfeydd gofal plant** mewn ardaloedd ble nad oes digon o ddarpariaeth gofal plant ar sail modelau a gaiff eu rhedeg mewn rhannau eraill o'r DU.

**Undebau Credyd**

23. Fel darparwyr moesol gwasanaethau ariannol sylfaenol, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried fod gan Undebau Credyd gyfraniad allweddol at gyflawni amcanion y Llywodraeth i drechu tlodi ac allgau ariannol lle mae hynny'n parhau yn ein cymunedau.

24. Mae nifer yr Undebau Credyd yng Nghymru wedi bod yn gostwng, a bellach, mae 22 ohonynt sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Ar ddiwedd Mehefin 2013, mae 34 swyddfa Undeb Credyd a chyfanswm o 256 man casglu ledled Cymru. Ar ddiwedd Mawrth 2013, amcangyfrifid fod gan holl Undebau Credyd Cymru 56,600 o aelodau sy'n oedolion. Amcangyfrifir fod cyfanswm yr aelodau, gan gynnwys cynilwyr ifanc, yn fwy na 68,400. Mae asedau Undebau Credyd Cymru hefyd wedi parhau i dyfu. Yn 2000, amcangyfrifid fod yr asedau yn £4m, ac roeddent wedi cynyddu i tua £29m erbyn Mehefin 2013. Amcangyfrifir fod gwerth y benthyciadau a roddwyd gan Undebau Credyd Cymru yn yr un cyfnod dros £14m, ac mae eu cynilon bellach yn werth dros £23.7m.

25. O fis Hydref 2010, mae cyllid o £4.056m wedi'i gynnig ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop tan fis Medi 2013 i barhau â'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol Trwy Undebau Credyd. Cyhoeddwyd cyllid ychwanegol o hyd at £2m i Undebau Credyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn Uwchgynhadledd yr Undebau Credyd ym Mehefin 2013.

**Datblygu / Cynllunio Cynaliadwy**

26. Mae dull integredig o drechu tlodi hefyd yn golygu archwilio sut gall strategaethau a chynlluniau allweddol a gynhyrchir yn genedlaethol a lleol gyfrannu at gyflawni'r tri amcan hyn. Mae hyn yn gyson â dull datblygu cynaliadwy, sy'n ceisio sicrhau'r lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau posibl yn y tymor hir i Gymru a'r cymunedau a wasanaethwn. Mae hyn yn cynnwys pwyslais cryf ar ymgysylltu â chymunedau lleol. Bydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd yn gwneud y dull hwn yn ofyniad statudol i gyrff cyhoeddus Cymru pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol.

27. Mae'r cynlluniau integredig sengl y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid wedi'u datblygu, ynghyd â'r cynlluniau datblygu lleol, yn darparu fframwaith i gyflawni hyn yn lleol. Er enghraifft, gall penderfyniadau cynllunio ddylanwadu'n sylweddol ar lunio darpariaeth tai fforddiadwy; cludiant cyhoeddus a dewisiadau teithio lleol i gysylltu cymunedau a gweithleoedd a sefydliadau addysgol; a mynediad at

gyfleusterau lleol, yn cynnwys mannau gwyrdd i chwarae. Gallant fod yn allweddol i sicrhau adfywio.

**Crynodeb**

28. Gwahoddir aelodau i drafod y materion hyn ac awgrymu dulliau y gall y sector preifat gefnogi'r gwaith o gyflawni'r polisïau a'r rhaglenni pwysig hyn.